# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA (3)-09-11 : Papur 1**

Dyddiad:25 Mawrth 2011
Oddi wrth:Clerc y Pwyllgor

## Offerynnau a osodwyd gerbron y Cynulliad yn rhy hwyr i gael eu hystyried gan y Pwyllgor

### Diben

1.Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol gymeradwyo trefniadau ar gyfer offerynnau statudol a osodwyd gerbron y Cynulliad presennol yn rhy hwyr i gael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor yn ystod ei gyfarfod olaf.

### Cefndir

2.Mae'r agenda ar gyfer cyfarfod olaf y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn cynnwys yr holl offerynnau statudol a osodwyd gerbron y Cynulliad cyn 24 Mawrth 2011, neu ar y dyddiad hwnnw. Efallai y bydd hefyd yn bosibl ychwanegu offerynnau eraill, a osodwyd ar ôl y dyddiad hwn, i'r agenda os gall cynghorwyr cyfreithiol a thîm clercio'r pwyllgor eu hystyried yn llawn.

3.Fodd bynnag, mae'n debygol y caiff rhai offerynnau eu cyflwyno ar ôl cyfarfod olaf y Pwyllgor, neu fel arall yn rhy hwyr i'r timoedd cyfreithiol a chlercio roi cyngor priodol i'r Pwyllgor amdanynt.

4.Nid yw'n debygol y bydd pwyllgor sy'n olynu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn y Pedwerydd Cynulliad yn gallu ystyried yr offerynnau hyn o fewn y terfyn amser o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad. Hefyd, mae'n bosibl na fydd yn gallu eu hystyried tan ar ôl y terfyn amser dirymu o 40 niwrnod. Bydd hyn yn golygu y bydd yr offerynnau wedi osgoi'r broses graffu arferol.

### Cynnig

3.Er mwyn sicrhau bod sylw'r Cynulliad newydd yn cael ei dynnu at y grwp hwn o offerynnau, cynigir gosod adroddiad rhagoriaethau gerbron y Cynulliad presennol yn y modd a nodir yn yr atodiad i'r papur hwn. Cynigir hefyd bod sylw'r holl Aelodau Cynulliad newydd yn cael ei dynnu at yr adroddiad hwn.

### Argymhelliad

6.Gwahoddir y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol i gymeradwyo'r trefniadau hyn.

CA (3)-09-11(p1)Atodiad

Adroddiad rhagoriaethau "safonol" arfaethedig i'w ddefnyddio ar gyfer yr holl offerynnau a ddaeth i law yn rhy hwyr i gael eu hystyried yn llawn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol cyn diddymu'r Cynulliad.

Gosodwyd pob un o'r offerynnau a ganlyn gerbron y Cynulliad yn rhy hwyr i ganiatáu iddynt gael eu hystyried yn llawn gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol y Trydydd Cynulliad.

Yn y Pedwerydd Cynulliad, nid yw'n debygol y caiff y pwyllgor perthnasol ei sefydlu tan ar ôl i'r terfyn amser o 20 niwrnod ar gyfer cyflwyno adroddiad ddod i ben. Hefyd, mae'n bosibl y bydd y terfyn amser o 40 niwrnod, pan gaiff y Cynulliad ddirymu'r offerynnau, wedi dod i ben cyn y caiff y pwyllgor newydd gyfle i ystyried yr offerynnau hyn.

O dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai'r offerynnau wedi bod yn destun gwaith craffu gan y Cynulliad, a byddai Aelodau'r Cynulliad wedi colli cyfle i gyflwyno cynigion i ddirymu unrhyw un o'r offerynnau.

Felly, mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol wedi cytuno i gyflwyno adroddiad, o dan Reol Sefydlog 15.3, yn nodi y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol dalu sylw arbennig i'r offerynnau statudol hyn am eu bod yn ymwneud â mater o bolisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad, gan ei bod yn bosibl y byddant yn osgoi'r trefniadau craffu arferol ar gyfer offerynnau statudol.

[Enw pob offeryn gan gynnwys eglurhad byr o'i ddiben, y dyddiad pan ddaw i ryw a'r dyddiad olaf y gall y Cynulliad gytuno ar gynnig i'w ddirymu.]"